# Bwletin Costau Byw Ceredigion:

# Cymorth dod o hyd i waith

## Cymorth dod o hyd i waith

Mae yna lawer o gynlluniau ar gael i gefnogi pobl i weithio yng Ngheredigion. P'un a ydych chi'n ifanc neu'n hŷn, yn anabl, yn ddi-waith neu'n meddwl am newid gyrfa, mae cymorth ar gael i'ch helpu i ddod o hyd i help sy'n addas i'ch anghenion.

## Mynediad at Anogwyr Gwaith a chynghorwyr cyflogaeth

Mae *Anogwyr Gwaith* wedi'u lleoli yn y Ganolfan Byd Gwaith. Maen nhw yn darparu cymorth cyflogaeth, arweiniad ac atgyfeiriadau at raglenni hyfforddi ac arbenigol.

Fel arfer bydd gennych Anogwyr Gwaith os ydych chi'n cael Credyd Cynhwysol neu os ydych chi'n cael eich cefnogi gan eich Canolfan Byd Gwaith leol i chwilio am waith.

**Os nad ydych ar Gredyd Cynhwysol**
Nid oes angen i chi fod yn hawlio Credyd Cynhwysol i gael help gyda chyflogaeth. Gall pawb gael gafael ar gyngor a chymorth cyflogaeth am ddim drwy:

- **Cymru Gweithio** **(0800 028 4844)** sy'n darparu cyngor gyrfaoedd, arweiniad sgiliau a chymorth i ddod o hyd i waith neu hyfforddiant.
- **Cyflogadwyedd lleol a gwasanaethau cyflogaeth â chymorth**, fel y rhai a restrir yn y bwletin hwn.

## Cyfle Cymru

Mae Cyfle Cymru yn darparu'r cymorth i helpu chi dod o hyd i swydd, gwirfoddoli, cyfleoedd hyfforddi neu gymwysterau cywir.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl 16+ sydd allan o waith ac eisiau help gyda heriau iechyd meddwl a/neu'n defnyddio sylweddau.

Maent yn cynnig arweiniad un i un gan fentor cyfoedion sy'n gallu tynnu ar eu profiad eu hunain o adferiad, iechyd meddwl a heriau defnyddio sylweddau. Maent hefyd yn darparu cymorth cyflogaeth arbenigol, gan gynnwys cyrsiau hyfforddi, cyfleoedd gwirfoddoli, cymorth i baratoi ar waith a chymorth a chyngor ar sut i chwilio a gwneud cais am swyddi.

I ddarganfod sut y gallant helpu, cysylltwch â 0300 777 2256, e-bostiwch ask@cyflecymru.com neu ewch i'w gwefan.
Neu ffoniwch Anne: 07890542308
Jayne: 07971776403
Alex: 077671684469
Tudalen Facebook Cyfle Cymru

## Tîm Cymorth Cyflogadwyedd Cyngor Ceredigion

Mae'r Tîm Cymorth Cyflogadwyedd yn darparu gwasanaeth mentora mewn lleoliadau ledled Ceredigion i unrhyw un sy'n 16+ ac yn chwilio am waith.

Mae mentoriaid yn gallu lleihau rhwystrau i gyflogaeth a chefnogi pobl i weithio neu i fod yn hunangyflogedig drwy ddarparu:

- Mentora 1:1, mae hyn yn cynnwys creu llwybr cyflogadwyedd, creu CVs, cymorth ymgeisio a chymorth cyfweliadau.
- Cymorth ymarferol i adeiladu cymhwysedd a hyder.
- Cymorth i ddatblygu sgiliau, gwerthoedd, ymddygiadau a gwybodaeth i symud pobl i mewn i gyflogaeth neu yn agosach ato.
- Cymorth i gael cymwysterau neu ardystiad sy'n berthnasol i waith.
- Cefnogi lleoliadau profiad gwaith, cyfleoedd gwirfoddoli, a threialon gwaith.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a TCC-EST@ceredigion.gov.uk neu ffoniwch 01970 633422.

## Deall gwaith a Budd-daliadau

Mae llawer o bobl yn poeni a gall dechrau gwaith effeithio ar eu budd-daliadau neu incwm eu cartref. Gall hyn atal pobl rhag gwneud ceisiadau am swyddi neu i gynyddu eu horiau.

Mae cyngor ar gael i helpu pobl i ddeall sut mae gwaith a budd-daliadau yn rhyngweithio, ac i wirio a fyddant yn well mewn gwaith cyn gwneud newidiadau. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i drafod opsiynau, enillion a threfniadau trosiannol.

Cyn gwneud penderfyniadau am waith, mae'n syniad da siarad â'ch Anogwr Gwaith neu ymgynghorydd budd-daliadau i gael gwybodaeth glir, wedi'i phersonoli.

## Gwarant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru

Ydych chi rhwng 16 a 24 oed ac yn ansicr am eich camau nesaf? Mae amrywiaeth o gyfleoedd ar gael i'ch cefnogi.

Mae Gwarant Person Ifanc Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth i bawb rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru i symud i addysg, hyfforddiant, prentisiaeth, cyflogaeth neu hunangyflogaeth.

Mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn cynnwys:

- Dewis y cwrs neu'r hyfforddiant cywir.
- Dod o hyd i brentisiaeth.
- Chwilio am swyddi a chefnogaeth gyda cheisiadau.
- Help i ddechrau eich busnes eich hun.

I gael cymorth, cysylltwch â Gwaith Cymru ar 0800 028 4844 neu ewch i wefan Cymru Weithio.

## PeoplePlus – Cynllun Ailgychwyn

Mae'r Cynllun Ailgychwyn wedi'i gynllunio i helpu pobl sydd allan o waith oresgyn rhwystrau a allai fod yn eu hatal rhag dod o hyd i waith.

Bydd pawb sy'n ymuno â'r Cynllun Ailgychwyn yn gweithio gyda Hyfforddwr Swyddi pwrpasol a all eu cefnogi i:

- Adeiladu sgiliau ar gyfer gwaith, gan gynnwys hyfforddiant swydd benodol.
- Mynediad i filoedd o swyddi gwag yn y DU.
- Mynd i'r afael â rhwystrau i waith, naill rwystrau personol, iechyd neu gymdeithasol.
- Datblygu sgiliau cyflogadwyedd fel technegau cyfweliad.
- Cael cyfateb â chyfleoedd gwaith addas.

I gael mynediad i'r Cynllun Ailgychwyn, siaradwch â'ch Anogwyr Gwaith yn eich Canolfan Byd Gwaith lleol, a all wneud atgyfeiriad. Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun Ailgychwyn ar gael yn Y Cynllun Ailgychwyn | PeoplePlus.

## PRIME Cymru – cefnogaeth i bobl dros 50 oed

Mae PRIME Cymru yn darparu cymorth am ddim i bobl 50+ yng Nghymru i ddod o hyd i waith, sefydlu busnes, neu ddatblygu sgiliau drwy gyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli.

Tom Hughes-Lewis yw cyswllt PRIME Cymru ar gyfer Ceredigion.

I gysylltu â Tom, ffoniwch 07956 056811 neu e-bostiwch tom@primecymru.co.uk.

## Age Cymru Dyfed – cymorth i bobl dros 50 oed

Mae Age Cymru Dyfed yn cydnabod bod llawer o bobl 50+ eisiau aros mewn gwaith neu ddychwelyd i gyflogaeth, ond gallant wynebu rhwystrau, yn enwedig gyda phrosesau recriwtio digidol fel ceisiadau ar-lein a CVs.

Mae cymorth cynhwysiant digidol Age Cymru Dyfed yn helpu pobl hŷn i fagu hyder wrth chwilio am swyddi ar-lein, creu a llwytho CVs, cwblhau ceisiadau a defnyddio offer digidol sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth.

Os ydych chi'n 50+ ac mae rhwystrau digidol yn ei gwneud hi'n anoddach dod o hyd i waith neu aros ynddo, mae cymorth ar gael.

Cysylltwch ag Age Cymru Dyfed ar 03333 447 874 neu e-bostiwch reception@agecymrudyfed.org.uk.

## Prentisiaethau

Mae prentisiaeth yn cynnig y cyfle i ddysgu sgiliau newydd, ennill cymwysterau a datblygu gyrfa tra'n ennill cyflog.

Mae amrywiaeth o gyfleoedd prentisiaeth ar gael yng Ngheredigion ar draws gwahanol sectorau.

Mae darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr lleol yn cynnwys:

- Cyngor Sir Ceredigion
- Hyfforddiant Ceredigion Training
- Coleg Ceredigion
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Heddlu Dyfed Powys

I gael cyngor, gwiriadau cymhwysedd a chymorth i ddod o hyd i brentisiaethau, cysylltwch â Gwaith Cymru ar 0800 028 4844 neu ewch i Cymru'n Gweithio | Working Wales

## Mynediad DWP i waith

Mae gan pob Canolfan Byd Gwaith Gynghorydd Cyflogaeth Anabledd sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig. Maent yn cefnogi Anogwyr Gwaith drwy gynnig cyngor ar sut i gefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor yn y gwaith neu wrth chwilio am

waith, a gallant helpu pobl i gael mynediad at gymorth a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â swyddi.

Mae Mynediad at Waith yn gynllun yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n darparu cymorth ymarferol i helpu pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol i gael, neu aros mewn gwaith.

Drwy Mynediad at Waith gallwch wneud cais am:

- Grant i helpu i dalu am gymorth ymarferol yn y gwaith.
- Cefnogaeth gyda rheoli eich iechyd meddwl yn y gweithle.
- Cyllid ar gyfer cymorth cyfathrebu mewn cyfweliadau swydd.

Gallwch wneud cais yn uniongyrchol am Fynediad i'r Gwaith ar-lein yma, neu drwy ffonio'r llinell gymorth Mynediad at Waith ar 0800 121 7479 (ffôn testun 0800 121 7579). Gallwch hefyd siarad â'ch Anogwyr Gwaith yn y Ganolfan Byd Gwaith i gael cyngor a chefnogaeth wrth wneud cais.

## Cyflogaeth â Chymorth ELITE

Mae Cyflogaeth â Chymorth ELITE yn cefnogi cannoedd o bobl anabl bob blwyddyn gyda chyfleoedd galwedigaethol, hyfforddiant a chyflogaeth, gan helpu pobl i symud tuag at fwy o annibyniaeth.

Mae ELITE yn darparu gwasanaethau cyflogaeth â chymorth wedi'u personoli, gan weithio gydag unigolion a chyflogwyr i helpu pobl i ddatblygu sgiliau, ennill profiad a chynnal gwaith â thâl.
Ffôn: 01443 226664 E-bost: information@elitesea.co.uk

## SCOPE – Cymorth i Waith

Mae Scope yn cynnig rhaglen Cymorth i Waith am ddim i bobl anabl yng Nghymru sy'n chwilio am waith â thâl.

Mae cynghorwyr cyflogaeth arbenigol yn darparu cymorth ar-lein a dros y ffôn, gan helpu gyda meithrin hyder, CVs, chwilio am swydd a pharatoi ar gyfer cyfweliadau.
Ffôn: 0300 222 5742 Ebost: supporttowork@scope.org.uk

## Cysylltwyr Cymunedol – Cymorth Lleol Am Ddim yng Ngheredigion

Mae Cysylltwyr Cymunedol yn darparu cymorth cynnar i unrhyw un sy'n byw yng Ngheredigion drwy gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol.

- Maent yn helpu i gysylltu pobl â gwasanaethau lleol, grwpiau cymunedol a sefydliadau sy'n gallu cefnogi iechyd a lles.
- Mae'r gefnogaeth yn cynnwys cyfeirio at wasanaethau, cysylltu pobl â gweithgareddau lleol, a chymorth gyda cheisiadau Bathodyn Glas a phasiau bws consesiynol.
- Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac ar gael ar draws y sir gyfan.

  I gysylltu â ni, cysylltwch â Clic Ceredigion ar 01545 574200 neu e-bostiwch clic@ceredigion.gov.uk i gysylltu â'ch Cysylltydd Cymunedol lleol.

## I gau:

**Ewch i wefan y Cyngor Sir i gael rhagor o wybodaeth am gymorth costau byw**

**Cymorth Costau Byw - Ceredigion County Council**.

Bydd y bwletin nesaf yn dod allan ar 15 Mai 2026.

Byddwn yn canolbwyntio ar **'Gymorth i Bobl Hŷn.'**

Cysylltwch â ni os oes gennych wybodaeth yr hoffech i ni ei chynnwys.

Ebost: partnerships@ceredigion.gov.uk Ffôn: 01545 570881

**Rhowch wybod i ni beth ydych chi'n ei feddwl o'n e-fwletin trwy ateb dau gwestiwn.**

**Cliciwch yma am yr arolwg**